YSGOL BRONINGTON A GYNORTHWYIR YN WIRFODDOL GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU

POLISI DERBYNIADAU

Derbynnir disgyblion i'r Feithrinfa, sy'n rhan o'n Huned Blynyddoedd Cynnar, yn y flwyddyn academaidd y byddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair oed ar 31ain Awst ym mis Medi.

Derbynnir disgyblion i'r Ysgol Fabanod (Derbyn) yn y flwyddyn academaidd y byddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair oed ym mis Medi. Y nifer y bwriedir eu derbyn i'r ysgol fabanod yw 17 o ddisgyblion bob blwyddyn.

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, gofynnir i AALlau a Chyrff Llywodraethol dderbyn disgyblion hyd at y nifer safonol (17) ac eithrio mewn achosion lle na fyddai hynny'n cadw natur nodedig yr ysgol. Cynhwysir cyfarwyddyd am dderbyniadau yng nghylchlythyrau Cynulliad Cymru.

Os bydd nifer y derbyniadau yn uwch nag ein nifer safonol, bydd y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r meini prawf canlynol gan eu blaenoriaethu yn y drefn a ddangosir:

1) Plant sy'n byw o fewn ffiniau eglwysig Bronington a Bettisfield.

2) Plant sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol eisoes yn y dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 5.

3) Plant i rieni sydd yn:-
   i. Aelodau cymunol o Eglwys y Drindod Sanctaidd, Bronington neu Eglwys Ioan Fedyddiwr, Bettisfield.
   ii. Aelodau cymunol o eglwysi eraill sy'n rhan o'r Eglwys yng Nghymru neu Eglwys Lloegr neu sy'n aelodau o eglwys mewn enwad Cristnogol arall.

4) Os bydd rhaid penderfynu rhwng dau neu fwy o ymgeiswyr sy'n disgyn i un o'r categorïau uchod, yna defnyddir agosrwydd o'r cartref i'r ysgol fel maen prawf.

5) Plant eraill.

<u>Apeliadau</u>

Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr i beidio â neilltuo lle ar gyfer eu plant yn ein hysgol.

Wrth hysbysu rhieni o'u penderfyniad, mae'n orfodoaeth ar y Corff Llywodraethol i atgoffa rhieni o'u hawl i apelio. Gwneir apêl fel hyn at y Pwyllgor Apeliadau, wedi'i gyfeirio at Gadeirydd Pwyllgor Apeliadau'r ysgol.